GIG CYMRU NHS WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymru

At Eich Dant

Rhifyn 17 • Haf 2019

Rhagair

Gan Colette Bridgman, Prif Swyddog Deintyddol, Cymru

Croeso i rifyn yr haf o At Eich Dant. Rwy'n gobeithio y cewch chi ac aelodau eich tîm gyfle i ddarllen a rhannu'r erthyglau cyn y gwyliau haf. Rwy'n falch iawn o fod nôl yn y gwaith ar ôl amser anodd yn bersonol yn dilyn profedigaeth yn y teulu a salwch. Mae amseriad y cyhoeddiad hwn yn gyfle i mi roi'r newyddion diweddaraf i chi ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd fel y gallwch chi ddysgu am y cynnydd sy'n cael ei wneud a'r heriau sy'n ein hwynebu o hyd a rhannu'r cyfleoedd sydd ar gael i fwy o dimau gyfrannu a chymryd rhan.

Mae'r gwaith o drawsnewid gofal deintyddol sylfaenol wedi cychwyn, gan gynyddu gwaith ataliol mewn lleoliadau clinigol a chefnogi gwelliant yn iechyd ceg y boblogaeth a mynediad at wasanaethau deintyddol yn cael ei chefnogi. Er bod mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG yn dal i beri pryder mewn rhannau o Gymru, mae'n ***ffaith*** bod yr ystadegau cyhoeddedig diweddaraf (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Dental-Services/Current-Contract/nhspatientstreatedforadultsandchildren-by-localhealthboard-patienttype) yn cadarnhau bod mynediad plant at ddeintyddiaeth gofal sylfaenol y GIG yng Nghymru ar ei ***lefel uchaf erioed***, ac wedi cynyddu eto yn y ffigurau diweddaraf i 67.4%, ac nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y plant sy'n cael mynediad at y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

Fodd bynnag, mae gormod o oedolion yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal deintyddol sylfaenol y GIG, yn enwedig yn y Gogledd a'r Gorllewin. Yr hyn rydyn ni angen ei weld yw mynediad a gofal ataliol yn gwella ar gyfer oedolion hefyd. Er bod dros 35,000 yn fwy o oedolion na 5 mlynedd yn ôl yn cael mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yng Nghymru, bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth a byddwn ni'n parhau i weithio i wella mynediad i oedolion ar lefel bwrdd iechyd a phractis.

Rhoddwyd llawer o sylw i'r materion hyn yn ail **Symposiwm Deintyddol Cymru** a gynhaliwyd yn Stadiwm Principality, Caerdydd ddydd Iau 21 Mawrth, gyda mwy na 200 o gynrychiolwyr yn bresennol. Roedd hi'n braf cyfarfod cymaint ohonoch chi ar y dydd a chlywed am: hyfforddiant 'Making Prevention Work in Practice' gan AaGIC; cynnydd cyd-gynhyrchu y Gyfadran Gweithwyr Gofal Deintyddol

Inside this issue …

3 Dathlu pen-blwydd Cynllun Gwên yn 10 oed

4 Offeryn Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET)

4 Gwasanaeth talu ar-lein newydd AGIC

5 Trosolwg o'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) diweddaraf

6 Ysbyty Deintyddol Prifysgol Caerdydd, Ysgol Ddeintyddiaeth – Wythnos y Wên

7 Benefits of Becoming a Reflective Practitioner

7 Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymweld â Chymru

8 Cynlluniau cenedlaethol i leihau'r defnydd o Fercwri

7 Gwybodaeth i bractisau sy'n defnyddio system fewnol i gynhyrchu mewnosodiadau (e.e. CEREC)

9 Newyddion gan Gymdeithas Prydain ar gyfer Astudio Deintyddiaeth Gymunedol

10 Newyddion Arall

Proffesiynol ym Mangor; cyflwyno dulliau rheoli atgyfeiriadau electronig ledled Cymru; a phrofiadau personol clinigwyr sy'n gweithio yn rhaglen ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Roedd hi'n wych bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymuno â ni a rhoi trosolwg mor gadarnhaol a blaengar o ddeintyddiaeth ac iechyd y geg yng Nghymru. Mae'n cydnabod yn llawn bod angen diwygio'r contract, a chadarnhaodd y bydd Unedau Gweithgarwch Deintyddol gwerth isel yn cael eu dileu o'r system.

Mae gan **Raglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol** 94 o bractisau yn cymryd rhan ledled Cymru. Mae'r newidiadau a ddisgwylir gan y practisau deintyddol wrth iddyn nhw gamu ymlaen i gam nesaf y rhaglen wedi'u rhannu gyda phractisau a byrddau iechyd. Mae digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu trefnu ledled Cymru ar gyfer practisau sydd eisoes yn rhan o'r rhaglen, ynghyd â'r rhai sy'n ystyried ymuno ym mis Medi eleni – cadwch lygad am y dyddiadau! Mae angen i ni symud i ffwrdd o Unedau Gweithgarwch Deintyddol, ond nid yw galw am eu dileu yn ddigon. Rydyn ni angen i dimau clinigol a byrddau iechyd gytuno ar beth a sut i fesur rhagoriaeth a darpariaeth mewn deintyddiaeth gofal sylfaenol. Beth am gymryd rhan a helpu i lywio'r newid?

Mae Prifysgol Bangor wedi'i chomisiynu i gynnal **gwerthusiad realydd annibynnol** o'r rhaglen, ac rydym wedi ariannu adnodd pwrpasol yn y tîm NHSBSA i gynhyrchu adborth ac adroddiadau monitro rheolaidd ar gyfer byrddau iechyd a phractisau.

Y mis Medi hwn, bydd **Cynllun Gwên** yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed. I nodi'r garreg filltir hon ac i ddathlu llwyddiannau'r rhaglen iechyd y geg hon hyd yma, mae cyfres o weithgareddau ar y gweill ar gyfer yr wythnos yn cychwyn ddydd Llun 16 Medi.

Yr haf hwn, roedd **Lisa Howells** wedi bwriadu ymddeol, ond mae hi wedi cytuno i ddal ati tan ganol mis Rhagfyr tra ein bod ni'n recriwtio Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol newydd. Bydd camu i esgidiau Lisa yn dasg anodd, ond cadwch lygad ar agor am yr hysbyseb a gyhoeddir yn fuan os mai eich uchelgais yw cymryd rhan mewn gwaith polisi ac arwain proffesiynol.

Croesewir opsiynau rhan-amser a rhannu swydd.

Dathlu pen-blwydd Cynllun Gwên yn 10 oed

Mae'r rhaglen iechyd y geg lwyddiannus Cynllun Gwên yn 10 oed. Cafodd ei chyflwyno mewn ardaloedd peilot yn 2008 a'i chyflwyno ledled y wlad yn 2009. Felly, bydd y rhaglen yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed yn 2019. Rydyn ni'n gobeithio y bydd meithrinfeydd, ysgolion a phractisau deintyddol yn ymuno yn y dathliadau ac yn nodi'r garreg filltir bwysig hon i hyrwyddo effaith y rhaglen.

Yn arbennig, anogir ysgolion a meithrinfeydd i gynnal wythnos o weithgareddau ar thema Cynllun Gwên, gan gychwyn ddydd Llun 16 Medi. Mae adnoddau ar gael iddyn nhw yn hwb.gov.wales a www.designedtosmile.org

Mae hyn yn cynnwys manylion cystadleuaeth genedlaethol i gynllunio cerdyn pen-blwydd i Dewi, y masgot. Mae gweithgareddau eraill wedi'u cynllunio, a chânt eu hyrwyddo gan ddefnyddio'r hashnod **#CynllunGwên**. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymweld ag ysgol sy'n cymryd rhan ar 19 Medi.

Byddai'n wych gweld practisau yn cymryd rhan ac yn defnyddio'r hashnod **#CynllunGwên** i rannu unrhyw waith rydych chi'n ei wneud i ddathlu! Gall syniadau i hyrwyddo Cynllun Gwên gynnwys cynnig tywys meithrinfa, dosbarth ysgol, grŵp sgowtiaid neu uned enfysau o gwmpas eich practis deintyddol. Gallwch argraffu taflenni lliwio a gweithgareddau ar gyfer eich cleifion iau o'r ddolen isod, a gellid eu defnyddio i greu arddangosiad syml yn eich practis:
http://www.designedtosmile.org/information-for-professionals/information-for-schools-and-nurseries/?lang=cy

Mae amryw o fideos hybu iechyd ar gael hefyd, gan gynnwys fideo Cynllun Gwên dwyieithog y gellid ei ddangos ar y teledu yn eich ystafell aros (os oes gennych chi un!). Mae'r rhain i'w cael yma:
https://drive.google.com/open?id=1SDG5iV65hOqgBQ3ARAoSUet_oWVnDCQF

Offeryn Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET)

Mae adnodd hyfforddi arloesol a ddatblygwyd yng Nghymru gyda'r nod o helpu practisau deintyddol i gynyddu gwaith tîm wedi cael cydnabyddiaeth ledled y DU.

Derbyniodd SOSET, a dreialwyd yn 2018 gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) mewn cydweithrediad ag Uned Caerdydd ar gyfer Ymchwil ac Arfarnu mewn Addysg Feddygol a Deintyddol, wobr genedlaethol yng Nghynhadledd Addysg Ddeintyddol NHS Education for Scotland.

Cafodd ei dreialu i gychwyn mewn 11 o bractisau deintyddol ledled y De, ond mae llwyddiant yr adnodd wedi golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio bellach gan 28 o bractisau ledled Cymru, a disgwylir i'r ffigur hwn godi wrth i ymwybyddiaeth o'r adnodd godi: https://aagic.gig.cymru/newyddion/cymrun-arwain-y-ffordd-i-wella-gwaith-tim-mewn-deintyddiaeth/

Gwasanaeth talu ar-lein newydd AGIC

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi lansio gwasanaeth newydd sy'n galluogi pob gwasanaeth cofrestredig, gan gynnwys deintyddion, i dalu eu ffioedd blynyddol ar-lein. Mae'r gwasanaeth ar-lein yn fwy cyfleus, yn fwy diogel, yn hawdd ei ddefnyddio ac ar gael drwy'r dydd, bob dydd.

Lansiodd AGIC y gwasanaeth newydd hwn i gyd-fynd â'r broses o dalu ffioedd cofrestru blynyddol deintyddion, sydd i'w talu ym mis Ebrill bob blwyddyn. Os oeddech chi wedi cofrestru cyn 31 Mawrth 2019, dylech chi fod wedi derbyn anfoneb mewn e-bost cyn diwedd mis Ebrill.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r un system a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gymryd taliadau treth car ar-lein, ac mae'n gwbl ddwyieithog. AGIC yw'r sefydliad sector cyhoeddus cyntaf i ddefnyddio'r system i gymryd taliadau fel hyn.

Er bod y system newydd yn ddiogel ac yn fwy cyfleus o lawer, mae'r opsiynau i dalu trwy drosglwyddiad banc neu drwy daliad cerdyn dros y ffôn neu drwy siec drwy'r post ar gael o hyd.

Os byddwch chi'n cael unrhyw broblemau wrth geisio gwneud taliad ar-lein, ffoniwch ni ar 0300 062 8163 neu anfonwch e-bost i HIW@gov.wales

Os ydych chi eisoes wedi defnyddio'r gwasanaeth, hoffai AGIC gael eich adborth ar y profiad – o dderbyn yr anfoneb i dderbyn e-bost cadarnhau. Anfonwch e-bost i HIW@gov.wales gydag "Adborth Talu" yn y maes pwnc.

Trosolwg o'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) diweddaraf

Ym mis Mehefin 2019, cyflwynwyd y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) gerbron y Cynulliad.

Mae'r Bil yn cynnwys pedwar prif gynnig:

- cryfhau'r ddyletswydd ansawdd sydd gan gyrff y GIG (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig) ar hyn o bryd ac ymestyn y ddyletswydd hon i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaeth iechyd;
- gosod dyletswydd gonestrwydd ar ddarparwyr gwasanaethau'r GIG (sy'n cynnwys darparwyr gofal sylfaenol), gan ei gwneud hi'n ofynnol iddynt fod yn agored a gonest gyda defnyddwyr gwasanaethau pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le;
- cryfhau llais dinasyddion trwy gyflwyno Corff Llais y Dinesydd newydd yn lle Cynghorau Iechyd Cymuned i gynrychioli buddiannau pobl ar draws iechyd a gofal cymdeithasol; a
- galluogi penodi Is-gadeiryddion i Ymddiriedolaethau'r GIG, gan sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â byrddau iechyd.

O safbwynt deintyddol, mae'r cynigion yn adeiladu ar gamau sydd eisoes yn cael eu cymryd i greu'r amodau rydyn ni eu hangen i drawsnewid gwasanaethau deintyddol yn unol â chyfeiriad polisi cenedlaethol 'Cymru Iachach'. Mae'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb dros ansawdd yn cael eu cryfhau ar gyfer holl sefydliadau'r GIG, a byddant yn berthnasol i bob system ac amgylchedd – nid y rhai clinigol yn unig. Bydd hyn yn annog amgylcheddau a systemau sy'n cefnogi ffyrdd gwell o weithio.

Bydd dyletswydd gonestrwydd newydd yn cael ei gosod ar gyrff y GIG ar lefel sefydliadol, gan adeiladu ar waith cynharach trwy Gweithio i Wella i sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn agored a gonest pan fo rhywbeth yn mynd o'i le. Bydd yn ategu dyletswyddau proffesiynol presennol ac yn cefnogi'r symudiad tuag at system sydd bob amser yn gwrando, dysgu a gwella, ac sydd wedi ennill ymddiriedaeth a hyder cleifion a'u teuluoedd.

Bydd canllawiau sy'n cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau yn cael eu datblygu i egluro manylion gweithdrefnau'r ddyletswydd gonestrwydd newydd.
Os oes gennych chi ddiddordeb mewn helpu i lywio'r ddogfen hon neu os ydych am gael mwy o wybodaeth am y cynigion, cysylltwch â thîm y Bil trwy anfon e-bost i: HSCQualityandEngagement@gov.wales

Ysbyty Deintyddol Prifysgol Caerdydd, Ysgol Ddeintyddiaeth – Wythnos y Wên

Ym mis Ebrill, fe ddathlon ni Wythnos y Wên ar draws clinigau yn y De. Ein nod oedd ymgysylltu â'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth ddeintyddol a chyfrannu negeseuon iechyd y geg ataliol.

I gychwyn, y nod oedd dathlu Wythnos y Wên yn yr adran Deintyddiaeth Bediatrig yn Ysbyty Deintyddol Prifysgol Caerdydd. Fodd bynnag, gwirfoddolodd sawl deintydd i gymryd rhan ac, o ganlyniad, roedd yn cynnwys clinigau Deintyddiaeth Gymunedol yng Nghaerdydd a'r Fro, Canolfan Ddeintyddol Kier Hardie, Merthyr Tudful a Chanolfan Adnoddau Port Talbot. Cafwyd nawdd gan GSK a changen y De o Gymdeithas Deintyddiaeth Bediatreg Prydain fel bod pob plentyn a ddaeth i'r clinigau yn ystod Wythnos y Wên yn cael bagiau arbennig yn cynnwys brwsh dannedd, past dannedd, sticeri a thaflenni atal.

Tynnu'r botel

Mae astudiaethau wedi dangos cysylltiad rhwng bwydo babanod ar y botel am gyfnod hir a phydredd yn y dannedd mewn plentyndod cynnar. Rhoddwyd cyngor ataliol i rieni a chawsant eu hannog i gyflwyno bicer hyfforddi newydd yn lle'r botel.

Wythnos y Wên yn y Gymuned

Myfyrwyr deintyddol yn cyflwyno negeseuon ataliol i ysgolion cynradd.

Cystadleuaeth lliwio

Helpodd cystadleuaeth lliwio a chwilair deintyddol i ennyn diddordeb cleifion ifanc.

Bu myfyrwyr deintyddol yn helpu i ddewis yr enillwyr, ac roedd gwobrau'n cynnwys brwshys dannedd batri a deunydd ysgrifennu.

Dywedodd aelodau'r tîm deintyddol eu bod yn cael boddhad mawr o gymryd rhan, a chafwyd adborth da gan gleifion.

Poster gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae poster gwybodaeth i'r cyhoedd am Anaf Colli Dant yn sgil Damwain wedi'i ddatblygu. Mae colli dant yn anaf difrifol sydd angen ei reoli ar unwaith. Mae camau a gymerir ar y pryd yn gallu cael effaith sylweddol ar brognosis y dant. Rydyn ni wedi datblygu poster gwybodaeth i'r cyhoedd dwyieithog i helpu'r rhiant/gofalwr gyda chamau i'w cymryd adeg yr anaf.

Bydd y poster yn cael ei arddangos mewn canolfannau cymunedol ac ysgolion yng Nghymru.

‘Benefits of Becoming a Reflective Practitioner’

Mae’r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a rheoleiddwyr iechyd wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd ar fanteision dod yn ymarferydd myfyriol sy’n amlinellu disgwyliadau cyffredin ar i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ddod yn ymarferwyr myfyriol a chymryd rhan ystyrlon mewn gwaith myfyrio.

Mae’n cynnig cyngor i ymarferwyr ar sut i fynd ati i fyfyrio’n effeithiol fel unigolion ac fel rhan o dimau ac yn nodi’r effeithiau uniongyrchol y gall hyn eu cael ar wella gwasanaethau a gofal cleifion:

https://dental.walesdeanery.org/sites/default/files/benefits_of_becoming_a_reflective_practitioner_-_joint_statement_2019.pdf

Mae’r gwaith hwn yn rhan o ymrwymiad ar y cyd i sbarduno diwylliant agored a gonest lle mae gweithwyr proffesiynol yn teimlo eu bod yn gallu myfyrio ar eu profiadau i gefnogi datblygu a dysgu. Dylai cyflogwyr annog eu timau i neilltuo amser i fyfyrio fel ffordd o wella datblygiad a llesiant a dyfnhau ymrwymiad proffesiynol.

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymweld â Chymru

Ymwelodd Tîm Gweithredol a Chyngor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol â Chaerdydd ar gyfer dau ddiwrnod o gyfarfodydd ddiwedd mis Mai fel rhan o’u rhaglen i ymgysylltu’n well â gweithwyr cofrestredig a rhanddeiliaid yn y gwledydd datganoledig.

Cychwynnodd yr ymweliad deuddydd yn Neuadd y Ddinas gyda briff cychwynnol gan y Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol, Lisa Howells, ar waith a chyfeiriad Llywodraeth Cymru ar gyfer deintyddiaeth yng Nghymru, a rhoddodd Alex Howells, Prif Weithredwr AaGIC, drosolwg o waith AaGIC sy’n berthnasol i ddeintyddiaeth.

Yna, cynhaliwyd pedwar cyfarfod dwyochrog gyda rhanddeiliaid allweddol, lle cafwyd trafodaeth eang ar y materion a’r heriau sy’n wynebu’r rhai sy’n rhan o fyd addysg, y llywodraeth, cymdeithasau proffesiynol, cleifion a’r cyhoedd.

Yna, aeth aelodau’r Cyngor a’r Tîm Gweithredol i ymweld â phractisau deintyddol, Ysgol Ddeintyddol Caerdydd, Canolfan Technoleg Ddeintyddol Met Caerdydd ac Uned Addysg Ddeintyddol Porth. Roedd yr ymweliadau hyn yn gyfle gwych i aelodau’r Cyngor ac aelodau Tîm Gweithredol gyfarfod â staff a deall y pwysau a’r heriau maent yn eu hwynebu yn eu hamgylcheddau gwaith.

Cychwynnodd yr ail ddiwrnod gyda chyfarfod Cyngor Caeedig, cyn cyfarfod Cyngor Cyhoeddus y gallai gweithwyr cofrestredig a rhanddeiliaid ei arsylwi. Yna, cymerodd y Cyngor ran mewn sesiwn holi ac ateb agored a gonest lle cafodd y gynulleidfa gyfle i ofyn cwestiynau yn uniongyrchol, ennyn trafodaeth a phrocio’r meddwl o ran materion a all fod angen i’r Cyngor fynd i’r afael â nhw a’u datblygu.

Roedd y ddau ddiwrnod yn llwyfan gwych i’r gwaith sy’n mynd rhagddo yng Nghymru o ran deintyddiaeth a’r gweithlu. Yn ogystal, cododd yr ymweliad broffil y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ymhlith ei randdeiliaid a’i weithwyr cofrestredig, gyda llawer yn nodi ei fod wedi newid eu barn am y Cyngor er gwell. Roedd yn ymweliad llwyddiannus i bawb, ac mae blog y Cadeirydd (3 Mehefin) ar wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn adlewyrchu hyn:

https://www.gdc-uk.org/news/news-and-blogs/blogs

Cynlluniau cenedlaethol i leihau'r defnydd o Fercwri

Ers cyhoeddi Rheoliadau Mercwri'r UE, mae hi wedi bod yn ofynnol i bob un o wledydd yr UE gyhoeddi Cynllun Cenedlaethol i leihau'r defnydd o Fercwri.

Ar 1 Gorffennaf 2019, cyhoeddodd pob un o wledydd Prydain eu cynlluniau ar gyfer y defnydd o fercwri mewn gwasanaethau deintyddol. Yng Nghymru, mae ein cynllun yn canolbwyntio ar atal clefyd deintyddol, ynghyd â'r camau sydd eisoes yn cael eu cymryd i leihau'r defnydd o amalgam deintyddol:

https://gov.wales/plans-phase-down-use-dental-amalgam

https://llyw.cymru/cynlluniau-i-leihau-defnydd-amalgam-deintyddol

Gwybodaeth i bractisau sy'n defnyddio system fewnol i gynhyrchu mewnosodiadau (e.e. CEREC)

Mae timau practis sy'n defnyddio systemau mewnol megis CEREC yn cael eu hatgoffa bod angen i'r practis gofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Mae MHRA yn cadarnhau bod mewnosodiadau/arosodiadau CEREC* yn cael eu hystyried fel 'dyfeisiau' yn hytrach na 'llenwadau' ac y byddai angen i bractis sydd â'i labordy/gyfarpar ei hun ac sy'n 'cynhyrchu'r' math hwn o gynnyrch fod wedi cofrestru gyda'r MHRA.

Mae manylion cyswllt yr MHRA yma: https://www.gov.uk/guidance/contact-mhra#medical-devices-1

Newyddion gan Gymdeithas Prydain ar gyfer Astudio Deintyddiaeth Gymunedol

Ym mis Mai eleni, penodwyd Maria Morgan FFPH, Uwch-ddarlithydd mewn iechyd deintyddol cyhoeddus ym Mhrifysgol Caerdydd ac Arbenigwr Anrhydeddus mewn Iechyd (Deintyddol) Cyhoeddus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn Ddarpar Lywydd BASCD.

Mae Maria wedi bod yn gweithio ym maes iechyd deintyddol cyhoeddus ers dros 20 mlynedd, gan arwain gwaith Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru – gan gynnwys goruchwylio'r rhaglen epidemioleg genedlaethol a monitro Cynllun Gwên a Gwên Am Byth – a hi yw'r arbenigwr iechyd cyhoeddus anghlinigol cyntaf i gael ei henwebu fel Llywydd y gymdeithas anrhydeddus hon.

Mae BASCD yn gweithio i hyrwyddo iechyd y geg cadarnhaol, atal clefyd y geg a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae aelodau'n cynnwys ymgynghorwyr iechyd deintyddol cyhoeddus, aelodau timau'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a staff anghlinigol mewn meysydd perthnasol (maetheg, seicoleg, cymdeithaseg, ystadegau ac ati).

Bydd cynhadledd lywyddol Maria, sef "Addressing Inequalities, Celebrating Improvement: BASCD 2020", yn nodi llwyddiant rhaglen Cynllun Gwên Cymru (ynghyd â mentrau sydd ar waith yng ngweddill y Deyrnas Unedig) ond bydd hefyd yn ystyried arferion gorau i wella iechyd y geg ymhellach.

Cynhelir y gynhadledd ar 2 a 3 Ebrill 2020 yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd.

I gael mwy o wybodaeth, cadwch lygad ar agor am newyddion trwy'r cyfryngau canlynol:

Gwefan: http://www.bascd.org/
Twitter: @bascd_uk @mariazetamorgan
Instagram: @bascd_uk
Facebook: @bascduk

Newyddion Arall

Ken Hughes yn ennill Gwobr Andy Williams yng Nghynhadledd Cynrychiolwyr Achrededig BDA.

Mae Ken Hughes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Uwch Ddeintydd Cymunedol, wedi ennill Gwobr Andy Williams yng nghynhadledd Cynrychiolwyr Achrededig BDA (AR). Mae'n wobr am Gynrychiolydd Achrededig y flwyddyn.

Julie Ellis yn ennill Gwobr BDA am Therapydd Deintyddol y Flwyddyn.

Mae Julie Ellis, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, wedi ennill gwobr Therapydd Deintyddol y Flwyddyn! Roedd y wobr yn un o'r 'Probe Dental Awards', a gydleolir gyda'r Gynhadledd BDA a'r Sioe Ddeintyddol.

Mae'r Gwobrau Deintyddol yn cydnabod unigolion a thimau rhagorol y mae eu hymrwymiad i ofal cleifion a datblygiad proffesiynol yn parhau i godi safonau ar draws y proffesiwn.

Anup Karki yn ennill gwobr yng Ngwobrau Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Anup Karki, Ymgynghorydd mewn Iechyd Deintyddol Cyhoeddus, wedi ennill gwobr yng Ngwobrau Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hon yn wobr unigol arbennig gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru am waith Anup ar Raglen Ddiwygio Contract y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.

Llongyfarchiadau mawr i Ken, Julie ac Anup ar eu gwobrau.

Rhannu profiad…

Bydd darllenwyr rheolaidd yn gwybod bod yr adran hon fel arfer yn cynnwys stori gan y tîm deintyddol am rywbeth sydd wedi digwydd iddyn nhw a gwersi yr hoffen nhw eu rhannu gydag eraill. Mae systemau ffurfiol ar waith y gall timau deintyddol eu defnyddio i adrodd am ddigwyddiadau, ond yn anaml y mae timau deintyddol yn eu defnyddio – yn rhannol gan nad ydyn nhw'n rhannu'r gwersi a ddysgwyd yn gyflym.

Yng Nghymru, mae'r system Unwaith i Gymru newydd yn cael ei datblygu i helpu pawb sy'n gweithio ym maes gofal iechyd i adrodd am ddigwyddiadau a rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Yn y gorffennol, roedd rhaid i dimau deintyddol ddefnyddio "ffurflenni" adrodd safonol, ond gofynnwyd i Bwyllgor Deintyddol Cymru weithio gydag Unwaith i Gymru i ddatblygu system adrodd benodol ar gyfer timau deintyddol a fydd yn gyflym a hawdd ei ddefnyddio.

Mae Unwaith i Gymru yn cydnabod bod angen i dimau deintyddol deimlo ei bod hi'n ddiogel iddyn nhw adrodd am ddigwyddiadau a theimlo'n hyderus y gall y gwersi a ddysgwyd gael eu rhannu'n gyflym i leihau'r risg o'r un math o beth yn digwydd i eraill.

Felly cadwch lygad ar agor am wybodaeth am fwy o ffyrdd o rannu profiad!

Y Rhifyn Nesaf

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o At Eich Dant yn ystod gaeaf 2019/20 a bydd yn cynnwys gwybodaeth am bob math o bynciau a fydd o ddiddordeb i dimau deintyddol yng Nghymru gobeithio.

"Rhannu profiad…" a byddwn ni'n eu cynnwys yn ddienw os mai dyna sydd orau gennych chi. Anfonwch e-bost at Simon Parker: simon.parker@gov.wales

Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dilynwch ni ar Twitter – @dhsswales

OGL © Hawlfraint yr Goron 2019 WG38271